



Apelio yn erbyn canlyniadau Adolygiadau Gwella Ansawdd

Mai 2020

Beth yw apêl?

Apêl yw pan fydd darparwr yn herio canfyddiadau Adolygiadau Gwella Ansawdd.

Mae apeliadau'n wahanol i gwynion. Pan fydd rhywun yn cwyno maent yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd gan QAA neu bethau a wnaed gan QAA. Nid yw'r drefn apelio wedi ei llunio i gynnwys neu i ystyried cwynion. Pan gyflwynir cwyn ynghyd â'r apêl, bydd y gŵyn yn cael ei hatal nes bydd y drefn apelio wedi ei chwblhau, fel nad yw'r broses o ymchwilio'r gŵyn yn rhagfarnu'r broses o ymdrin â'r apêl, ac fel nad ystyrir bod y broses o ymchwilio'r gŵyn yn rhagfarnu'r broses o ymdrin â'r apêl.

Cyflwyno apeliadau

Cyflwynir apeliadau gan ddefnyddio Trefn Apelio QAA ar gyfer Adolygiad GA. Mae hon yn broses fewnol, ac nid yw'n gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol. Llunnir cyflwyniadau gan y darparwr sy'n apelio ('y darparwr') gan ddefnyddio'r ffurflen gyflwyno apêl sydd ar gael ar wefan QAA, a chânt eu cyflwyno i Bennaeth Llywodraethu QAA (governance@qaa.ac.uk).

Bydd gan ddarparwyr un wythnos (pum diwrnod gwaith) ar ôl derbyn yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi¹ i nodi eu bwriad i apelio. Gellir gwneud apêl cyn pen cyfnod cyflwyno o bythefnos, a fydd yn cychwyn ar y dyddiad y derbynir yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi. Gellir cyflwyno apeliadau ar sail yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi yn unig. Ni ellir derbyn apeliadau a gyflwynir ar unrhyw gam arall yn y broses adolygu.

Mae hawl gan bob darparwr apelio yn erbyn beirniadaethau 'anfoddfaol'. Mewn perthynas ag Adolygiad GA, beirniadaethau 'anfoddfaol' yw'r rheiny sydd angen camau dilyniant i gwblhau'r adolygiad, sef:

- yn bodloni'r gofynion gydag amodau, neu
- ddim yn bodloni'r gofynion.

Mewn perthynas â beirniadaethau gwahaniaethol, fel y maent wedi eu diffinio yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA, dim ond yn erbyn eu helfennau negyddol y gellir apelio.

Nid yw'n bosibl apelio yn erbyn y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion'.

Os bydd y darparwr yn dewis peidio apelio, bydd QAA yn symud ymlaen at gyhoeddi'r Adroddiad Canlyniadau a'r Adroddiad Technegol ar ei gwefan.

¹ Anfonir adroddiadau ar yr e-bost fel arfer. Ystyrir bod y 'derbyniad' yn effeithiol ar y dyddiad a'r amser y cafodd yr e-bost sy'n cynnwys yr adroddiad drafft gan QAA ei anfon at y person cyswllt enwebedig yn sefydliad y darparwr, ar yr amod nad yw'r neges yn cael ei dychwelyd fel un anafonadwy. Mae'r darparwr yn gwbl gyfrifol am sicrhau bod manylion cyswllt cywir y person cyswllt enwebedig yn sefydliad y darparwr ar gael i QAA.

Sail yr apêl

Gellir gwneud apeliadau ar sail Afreoleidd-dra Trefniadol neu Ddeunydd Newydd. Mae 'Afreoleidd-dra Trefniadol' yn cyfeirio at afreoleidd-dra yn y ffordd y gweithredir yr adolygiad i'r fath fodd nes ei fod yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y penderfyniad neu'r penderfyniadau a wnaethpwyd.

Mae 'Deunydd Newydd' yn cyfeirio at ddeunydd a oedd yn bodoli ar y pryd pan wnaeth y tîm adolygu ei feirniadaeth, a fyddai, pe bai ar gael, wedi dylanwadu ar feirniadaethau'r tîm, ac yn y cyswllt hwn, mae'n rhaid i'r darparwr ddarparu rheswm da² i esbonio pam nad oedd ar gael i'r tîm adolygu.

Mae'n rhaid i'r apelydd esbonio sail yr apêl yn eglur yn yr apêl a gyflwynir, a rhaid iddo gyflwyno tystiolaeth ddogfennol ategol lle bo modd. Ni fydd y dystiolaeth wreiddiol a lwythwyd na'r sail tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad ar gael i adolygwr yr apêl, felly mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth ategol y mae'r darparwr sy'n apelio eisiau dibynnu arni, ochr yn ochr â'r apêl. Rhaid i unrhyw dystiolaeth fod yn benodol berthnasol i sail yr apêl. Nid yw'n dderbyniol cynnwys tystiolaeth na chafwyd cyfeiriad ati, na chyflwyno'r dogfennau eto sydd wedi derbyn ystyriaeth yn barod yn ystod y broses adolygu.

Nid yw'r Drefn Apelio ar gyfer Adolygiad GA yn caniatáu apelio ar sail beirniadaeth academaidd.

Cyfathrebu

Pan fydd darparwyr yn cyflwyno apêl, bydd y cysylltiad gydag unrhyw adolygwr, swyddog, arbenigwr adolygu ansawdd neu reolwr sicrhau ansawdd sydd wedi ymwneud ag Adolygiadau GA yn dod i ben ar unwaith, a daw prif gysylltiadau'r darparwr yn Dîm Llywodraethu QAA. Ni ddylai unrhyw aelodau eraill o staff QAA a'r adolygwyr gyfathrebu'n uniongyrchol â'r darparwr mewn unrhyw ffordd ar ôl derbyn yr apêl, a dylent anfon unrhyw gyfathrebiadau y maent yn eu derbyn ymlaen at y Tîm Llywodraethu. Ni ddylai'r darparwr geisio cysylltu ag unrhyw aelod o staff QAA heblaw'r Tîm Llywodraethu.

Adolygwyr apêl

Aseinir bob adolygwr apêl ar y sail nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol a allai effeithio ar eu gallu i ystyried yr apêl yn ddiuedd a gofynnir iddynt gadarnhau nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro o'r fath cyn iddynt gael eu penodi. Mae QAA yn cadw cofnod o'r holl ymatebion.

Amserlen y gweithgareddau

Mae'r amserlen safonol ar gyfer y rhan hon o'r broses i'w gweld yn y tabl isod. Nodwch os gwelwch yn dda bod modd addasu'r dyddiadau cwblhau yn yr amserlen hon i ystyried dyddiadau pan fydd QAA wedi cau, gan gynnwys yn ystod gwyliau Nadolig neu wyliau Pasg. Bydd QAA yn cadarnhau mewn ysgrifen beth yw'r union ddyddiad ar gyfer penderfynu ar yr apêl.

² Ni ystyrir fod y canlynol yn 'rhesymau da' dros fethu â darparu deunydd sy'n ofynnol o dan y sail 'Deunydd Newydd': honiad nad oedd y tîm adolygu wedi gofyn i weld y Deunydd Newydd yn benodol, a dim rheswm arall, neu honiad bod y cyfyngiad ar nifer y dogfennau y gellir eu llwytho wedi cyfyngu ar allu'r darparwr i gyflwyno'r Deunydd Newydd.

Yr amserlen ar gyfer camau dilyniant ac apeliadau

Wythnosau gwaith ar ôl yr ymweliad ar y safle ³	Canlyniad aflwyddiannus (dîm apêl)	Canlyniad aflwyddiannus (apêl)
Wythnos +1	QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr am y beirniadaethau a'r canfyddiadau dros dro sydd yn yr Adroddiad Canlyniadau drafft Hysbysir y Tîm Llywodraethu a CCAUC am unrhyw ganlyniadau aflwyddiannus	
Wythnos +4	QAA yn anfon yr Adroddiad Canlyniadau a'r Adroddiad Technegol at y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i dderbyn sylwadau am eu cywirdeb ffeithiol.	
Wythnos +7	Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol sydd yn yr adroddiad QAA yn cwblhau'r adroddiad	
Wythnos +8 Wythnos 0	QAA yn anfon yr adroddiad terfynol at y darparwr	
Wythnos +9 Wythnos +1	Y darparwr yn rhoi gwybod i'r Swyddog QAA am ei fwriad i beidio apelio	Y darparwr yn rhoi gwybod i'r Swyddog QAA am ei fwriad i apelio
Wythnos +10 Wythnos +2	QAA yn cyfieithu'r adroddiad	Y darparwr yn cyflwyno'r apêl a'r dystiolaeth ategol i Bennaeth Llywodraethu QAA QAA yn hysbysu CCAUC am yr apêl Y broses apelio'n cychwyn
Wythnos +12 Wythnos +4	QAA yn cyhoeddi'r adroddiadau	Dewisir adolygwr yr apêl gan QAA Adolygwr yr apêl yn penderfynu a ddylid gwrthod yr achos neu ei gyfeirio at y panel apêl i gael ei ystyried
Wythnos +14 Wythnos +6		Hysbysir y darparwr am ganlyniad y gwaith sgrinio cychwynnol
Wythnos +15 Wythnos +8		Y tîm adolygu'n cyflwyno eu sylwadau am yr apêl
Wythnos +16 Wythnos +9		Y panel apêl yn ystyried yr holl dystiolaeth, gan gynnwys cyflwyniad y tîm adolygu, ac yn gwneud penderfyniad ar y cyd
Wythnos +17 Wythnos +10		QAA yn rhoi adroddiad am ganlyniad yr apêl i'r darparwr QAA yn hysbysu CCAUC am ganlyniad yr apêl
Wythnos +19 Wythnos +12		Os gwrthodir yr apêl, mae QAA yn cyfieithu ac yn cyhoeddi'r adroddiad.

³ Mae'r ffigurau sydd wedi eu hargraffu mewn print trwm yn nodi'r wythnosau yn y broses apelio. Mae'r ffigurau eraill yn nodi'r wythnosau yn y broses Adolygiad GA.

Manylion y drefn apelio ar gyfer Adolygiad GA

Cyflwyno'r hysbysiad am y bwriad i apelio - wythnos 1, h.y. hyd at 5 diwrnod gwaith

Mae'r darparwr yn rhoi gwybod a yw'n bwriadu apelio yn erbyn canlyniad ai peidio drwy anfon e-bost at y Swyddog QAA sy'n goruchwyllo'r adolygiad.

Ni fydd QAA yn ystyried bod unrhyw ddatganiad o fwriad i apelio'n rhwymo'r darparwr; ar ôl nodi ei fwriad, os bydd y darparwr yn penderfynu nad yw bellach eisiau apelio, neu os nad yw'n cyflwyno apêl ddilys erbyn y dyddiad cyflwyno, bydd QAA yn symud ymlaen at baratoi'r Adroddiad Canlyniadau a'r Adroddiad Technol ar gyfer eu cyhoeddi.

Cyflwyno'r apêl - wythnos 2

Mae'r darparwr yn cyflwyno apêl ynghyd â dogfennau ategol i Bennaeth Llywodraethu QAA o fewn pythefnos i dderbyn yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi.

Mae'n rhaid cyflwyno'r apêl gan ddefnyddio'r [Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Adolygiad GA](#), yn y Gymraeg neu'r Saesneg, dylai gadw at y cyfyngiadau perthnasol ar nifer y geiriau, ac mae'n rhaid iddi ganolbwyntio ar y rheswm penodol am yr apêl, gan gynnwys dim ond dogfennau ategol sy'n uniongyrchol berthnasol.

Bydd y Pennaeth Llywodraethu'n penodi adolygwr apêl ar gyfer Adolygiad GA sy'n addas i sgrinio'r apêl yn gychwynnol. Bydd hwn neu hon yn adolygwr hyfforddedig ar gyfer Adolygiad GA sydd heb ymwneud o gwbl hyd hynny ag Adolygiad GA y darparwr penodol.

Bydd cyfle i'r darparwr hysbysu QAA am unrhyw wrthdaro buddiannau sydd gan unrhyw adolygwr apêl unigol ar adeg cyflwyno'r apêl, yn ôl tybiaeth resymol y darparwr (gwelwch y Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Adolygiad GA). Bydd adolygwyr apêl yn aros yn ddiennw. Nid oes caniatâd i ddarparwyr ofyn i adolygwyr apêl penodol wrando ar eu hachos, na cheisio dylanwadu ar ddyraniad yr apêl, heblaw drwy'r drefn ar gyfer codi gwrthwynebiadau wrth gyflwyno'r apêl.

Bydd apelïadau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu cyfieithu a'u hystyried yn y Saesneg yn dibynnu ar argaeledd adolygwyr apêl sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y broses sgrinio gychwynnol. Lle gwneir cyfieithiad, bydd QAA yn defnyddio gwasanaethau cyfieithydd cymwysedig sydd ag enw da i sicrhau bod y cyflwyniad yn parhau'n gywir yn yr ail iaith. Anfonir copi o unrhyw gyfieithiad o'r fath at y darparwr er gwybodaeth.

Sgrinio cychwynnol - wythnos 6

Bydd adolygwr yr apêl yn ystyried yr achos yn gychwynnol. Bydd yr adolygwr yn sgrinio'r adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi, y Ffurflen Gyflwyno Apêl gyflawn ar gyfer Adolygiad GA a'r dystiolaeth gysylltiedig, a bydd yn penderfynu a ddylid gwrthod yr achos neu ei gyfeirio at banel apêl i gael ei ystyried.

Bydd yr adolygwr yn gwrthod yr apêl dim ond os na fydd siawns realistig fod yr apêl yn mynd i gael ei chadarnhau. Pwrpas y cam hwn yw sicrhau bod apelïadau annilys sy'n amlwg heb sail iddynt yn cael eu gwrthod heb iddynt orfod derbyn ystyriaeth lawn. Mae'r trothwy ar gyfer cyfeirio ymlaen wedi ei osod yn isel.

Ni fydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad adolygwr yr apêl, nac i ofyn iddo gael ei adolygu. Pan fydd adolygwr yr apêl yn gwrthod apêl, bydd y Tîm Llywodraethu'n hysbysu'r darparwr mewn ysgrifen am y penderfyniad hwn. Yna bydd y Drefn Apelio ar gyfer Adolygiad GA yn dod i ben ar y cam hwn.

Pan fydd adolygwr yr apêl yn cyfeirio'r apêl at banel apêl, bydd y Tîm Llywodraethu'n hysbysu'r darparwr mewn ysgrifed am y penderfyniad hwn.

Ymateb y tîm adolygu i'r apêl - wythnos 8

Pan gyfeirir apêl at banel, anfonir yr apêl a gyflwynir ymlaen at y tîm adolygu gwreiddiol i dderbyn sylwadau.

Bydd y tîm adolygu, dan arweiniad Swyddog QAA, yn llunio ymateb ar y cyd, ac mae'n rhaid cyflwyno hwn hefyd mewn fformat safonol. Anfonir copi o sylwadau'r tîm adolygu at y darparwr er gwybodaeth.

Gwrandawriad y panel - wythnos 9

Bydd y panel apêl yn cynnwys tri adolygwr hyfforddedig, a bydd un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd.

Fel arfer, cynhelir y gwrandawriad fel cyfarfod ffurfiol, wyneb yn wyneb, a fynychir gan aelodau'r panel ac un aelod o'r Tîm Llywodraethu, a fydd yn gweithredu fel clerc. Ni ddatgelir byth beth yw lleoliad a dyddiad y gwrandawriad i'r darparwr, nac i'r tîm adolygu. Cynhelir y gwrandawriad yn y Saesneg.

Bydd y panel yn ystyried yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi, y Ffurflen Gyflwyno Apêl gyflawn ar gyfer Adolygiad GA a'r dystiolaeth, ac ymateb y tîm adolygu ac unrhyw dystiolaeth atodol (neu unrhyw gyfieithiad o unrhyw rai o'r pethau hyn a grybwyllwyd, wedi ei gomisiynu gan QAA), a bydd yn ceisio dod i benderfyniad ar yr achos mewn un sesiwn. Bydd y panel yn gwneud penderfyniad ar y cyd.

Canlyniadau'r apêl - wythnos 10

Bydd y Tîm Llywodraethu'n llunio canlyniadau'r panel apêl, a bydd yn rhoi gwybod amdanynt i'r darparwr gan esbonio'r canlyniadau a'r rhesymau am y penderfyniad. Mae hyn yn cwblhau'r broses apelio. Pan gyflwynir yr apêl yn y Gymraeg, rhoddir yr ymateb yn y Gymraeg hefyd.

Os gwrthodir yr apêl, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi o fewn dwy wythnos waith. Lle cadarnheir bod yr apêl yn ddilys, bydd yr union gamau ac amserlen yn dibynnu ar natur yr achos, a bydd y penderfyniad am yr apêl yn eu nodi'n glir.

Cyhoeddir y Llawlyfr yma yn y Gymraeg a'r Saesneg.

QAA2544 – Mai 2020

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000

Gwefan: www.qaa.ac.uk